Côr y Wîg

Mwynhau byd natur

Ar ddechrau Ebrill a Mai mae'r adar ar eu gorau. Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan maen nhw'n canu yn y bore bach. Bydd rhai adar yn dechrau canu tua hanner awr wedi pump i chwech o'r gloch y bore. Fel rheol, bydd un aderyn yn dechrau canu ac yna'n raddol bydd un arall ac un arall ac yn sydyn bydd y wîg yn fôr o gân. Erbyn canol Ebrill bydd llawer o adar mudol wedi cyrraedd ein gwlad a bydd rheiny hefyd yn ymuno'n y gân.

Pam mae'r adar yn canu ar eu gorau yr adeg yma o'r flwyddyn?

Dyma'r adeg pan fo'r adar yn dechrau nythu. Bydd y ceiliogod yn amddiffyn eu tiriogaeth, hynny yw fe fyddan nhw'n hawlio darn o dir i godi nyth. Does wiw i aderyn arall ddod yn agos i'r tiriogaeth hwnnw. Ymhlith yr adar mwyaf ffyrnig mae'r robin goch. Mae ef wedi bod yn amddiffyn ei diriogaeth dros fisoedd y gaeaf. Os daw robin arall yn agos i diriogaeth robin bydd ymladdfa ffyrnig. Weithiau bydd dau robin yn ymladd hyd farwolaeth. Mae stori am arddwr yn rhoi darn o frethyn coch ar y clawdd drain yn ei ardd. Pan welodd robin y darn brethyn roedd yn sicr mai robin arall oedd yno. Aeth yn syth ato a dechrau ei bigo'n ddidrugaredd. Bu'n ymladd â'r darn brethyn am hydoedd. Yn y diwedd syrthiodd y darn brethyn i'r llawr. Roedd robin yn teimlo ei fod wedi llwyddo i gael gwared â'r robin arall. Ond nod y robin yn unig yw amddiffyn ei diriogaeth. Mae'r titw tomos las, y fronfraith, y fwyalchen a llu o adar eraill yn amddiffyn eu tiriogaeth. Pan mae'r adar yn canu ben bore mae'n nhw'n dweud wrth yr adar eraill 'y fi biau'r darn yma o dir.'

Rheswm arall pam fod yr adar yn canu yr adeg yma o'r flwyddyn yw hysbysebu adar eraill eu bod yn chwilio am gymar. Bydd y ceiliogod yn edrych ar eu gorau. Bydd ceiliog yr asgell arian yn ei wisg binc a phen glas. Y titw mawr yn ei

siwt werdd a phen du. Bydd y ceiliog nico yntau yn ei benwisg goch. Pwrpas y lliwiau llachar yma yw ceisio denu cymar. Ond y ffordd arall i ddenu'r iâr yw canu. Bydd yr ieir yn cael eu denu at y ceiliogod sy'n canu orau. Un o'r adar sy'n enwog am ei gan ydi'r eos. Aderyn sy'n dod atom yn y gwanwyn, o Affrica, ydi'r eos. Bydd yr eos weithiau yn canu yn ystod oriau'r nos. Er ei fod yn aderyn digon di-liw mae'n ganwr heb ei ail.

Prin y bydd yr eos yn ymweld â Chymru. Ond mae gennym ninnau ein cantorion hefyd ac mae'r rhain gyda ni gydol y flwyddyn. Pa aderyn sydd yna i guro cân y fronfraith neu'r fwyalchen. Mae cân y ceiliog mwyalchen gystal pob tamaid â chân yr eos.

Ar fore braf o Fai beth sy'n well na chodi'n gynnar a mynd allan i wrando ar gôr y wîg. Bydd yn gwneud ein diwrnod ninnau'n llawn asbri a hwyl.

Diolch i Ti am gân yr adar yn y gwanwyn.
Mae'n nhw'n codi'n calon bob amser. Amen.

✦ Beth ydi'r rhesymau fod yr adar yn canu yn y bore bach?

✦ Rhestrwch yr adar sy'n canu yn y bore. Chwiliwch am fwy o wybodaeth amdanyn nhw.